

**Arolygiad o Bractis
Deintyddol Cyffredinol (lle
rhoddwyd rhybudd)
Bwrdd Iechyd Addysgu
Powys, Canolfan
Ddeintyddol y Gelli Gandryll**

18 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	13
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	17
6.	Y Camau Nesaf.....	18
	Atodiad A.....	19

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddyd rhybudd o Ganolfan Ddeintyddol y Gelli Gandryll yn Oxford Road, y Gelli Gandryll, Henffordd, HR3 5AL, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, ar 18 Mehefin 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.¹ Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>

² <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredir safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol y Gelli Gandryll yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal y Gelli Gandryll ym Mhowys. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Practis cymysg sy'n cynnig gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG yw Canolfan Ddeintyddol y Gelli Gandryll.

Mae'r practis yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys pum deintydd, dau hylenydd deintyddol, pedair nyrs ddeintyddol, un derbynnydd, ac un rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deintyddiaeth ataliol
- Deintyddiaeth adferol
- Deintyddiaeth gosmetig
- Mewnblaniadau deintyddol
- Llonyddiad deintyddol

4. Crynodeb

Archwiliodd AGIC sut y mae Canolfan Ddeintyddol y Gelli Gandryll yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Fe'n hysbyswyd gan gleifion (trwy ein holiadur) eu bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaethau a ddarperir yn y practis hwn. Cawsom lawer o sylwadau cadarnhaol eraill hefyd. Fe'n hysbyswyd y gall fod oediad byr ar ddiwrnod apwyntiad weithiau, ond ni adroddwyd hyn i ni fel problem. Mae angen i'r practis gyflwyno ei system ffurfiol ei hun ar gyfer gwahodd adborth rheolaidd gan gleifion, gan ddadansoddi a gweithredu ar yr hyn a dderbynnir.

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod y practis yn gwneud gwelliannau i'w broses ddadheintio trwy symud tuag at ddull arfer gorau ar gyfer ymdrin ag offerynnau. Canfuwyd systemau priodol ar gyfer ymdrin ag offer radiograffig yn ddiogel. Canfuwyd gennym fod angen gwneud rhai gwelliannau i nodiadau cleifion, ac rydym wedi argymhell y dylid datblygu system adolygu gan gymheiriaid ar gyfer y deintyddion er mwyn hwyluso rheolaeth ansawdd fewnol a gwelliannau. Canfuwyd gennym fod y trefniadau ar gyfer ymdrin ag achosion brys cleifion yn foddhaol; fodd bynnag, mae angen eu hategu'n ffurfiol gyda pholisi dadebru.

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod diffyg rheolaeth practis, a oedd wedi arwain at ffeiliau staff wedi'u cynnal yn wael, gwybodaeth reoli ar goll, a diffyg cyfathrebiad i ddiweddarau staff am bolisiau a newidiadau a datblygiadau yn y gwasanaeth. Hwn oedd y maes yr oedd gennym y mwyaf o bryderon yn ei gylch, ac y mae angen ei wella'n fwyaf sylweddol. Cyflwynwyd gofyniad sicrwydd ar unwaith gennym y dylai'r practis enwebu rheolwr practis dros dro/dirprwy reolwr practis gan fod y rheolwr practis parhaol ar absenoldeb salwch. Cafodd hyn ei ddatrys yn ystod yr wythnos yn dilyn ein hymweliad arolygu.

Mae'r practis wedi'i leoli mewn adeilad a adeiladwyd yn bwrpasol, a cheir mynediad gwastad drwyddi draw ynghyd â ramp i gael mynediad pe bai ei angen. Roedd rhywfaint o waith adeiladu ar y gweill yn ystod ein harolygiad. Roedd pob rhan o'r practis yn ymddangos yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw i safon briodol.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Fe'n hysbyswyd gan gleifion (trwy ein holiadur) eu bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaethau a ddarperir yn y practis hwn. Cawsom lawer o sylwadau cadarnhaol eraill hefyd. Fe'n hysbyswyd y gall fod oediad byr ar ddiwrnod apwyntiad weithiau, ond ni adroddwyd hyn i ni fel problem. Mae angen i'r practis gyflwyno ei system ffurfiol ei hun ar gyfer gwahodd adborth rheolaidd gan gleifion, gan ddadansoddi a gweithredu ar yr hyn a dderbynnir.

Ein prif ddull o gasglu barn y cleifion ar gyfer yr arolygiad hwn oedd trwy ddsbarthu holiaduron, wedi'u hargraffu ymlaen llaw, i gleifion cyn ein hymweliad arolygu. Cwblhawyd a dychwelwyd pedwar ar bymtheg ohonynt.

Yn gyffredinol, roedd yr adborth a dderbyniwyd gennym yn hynod gadarnhaol. Roedd llawer o bobl wedi gwneud sylwadau ychwanegol, a gellir gweld sampl o'r rhain isod (rhoddwyd eu caniatâd i'w cynnwys):

"Peidiwch â newid unrhyw beth i'r gwasanaeth ardderchog yn y practis hwn."

"Roeddwn i'n teimlo y byddwn yn cael gwell gofal trwy fynd ar gynllun triniaeth. Fe wnes i hynny ac rwyf yn cael gwasanaeth mwy trylwyr erbyn hyn."

"Mae'r nyrsys deintyddol yn dda ym mhob agwedd ar ofal a gwaith ac yn llawn dealltwriaeth."

"Maen nhw'n gwneud rhai gwelliannau gwych; mae'r sgrin wybodaeth yn syniad da."

Fe'n hysbyswyd gan yr holl ymatebwyr eu bod wedi cael croeso gan staff y practis, a dywedodd bob un o'r pedwar ar bymtheg wrthym hefyd eu bod yn fodlon â'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn gan y practis.

Dywedodd un ar ddeg o gleifion wrthym eu bod weithiau'n dioddef oedi byr cyn cael eu gweld ar gyfer eu hapwyntiad, ond ni ddywedodd yr un ohonynt fod hyn wedi bod yn broblem, a rhoddwyd rhai sylwadau ychwanegol i'n hysbysu bod yr oediadau'n "fyr" a hefyd eu bod wedi "cael eu hesbonio".

Canfuwyd gennym mai prin yw'r cyfleoedd y mae'r practis ei hun yn eu cynnig i gleifion roi adborth. Fe'n hysbyswyd y bu arolwg rhai blynyddoedd yn ôl, ond, gan nad oedd y rheolwr practis yn bresennol yn ystod yr arolygiad hwn, ac nad oedd staff eraill y practis yn gwybod lle'r oedd y canlyniadau'n cael eu storio, nid oeddem yn gallu edrych ar hwn. Nid oedd unrhyw flwch sylwadau na ffurflenni awgrymiadau gwag yn y dderbynfa yn gwahodd adborth gan gleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid datblygu ffordd reolaidd o wahodd adborth cleifion. Mae'n rhaid dadansoddi ac adolygu canlyniadau'r rhain, gan gymryd camau ar eu sail ac fel sy'n briodol.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod y practis yn gwneud gwelliannau i'w broses ddadheintio trwy symud tuag at ddull arfer gorau ar gyfer ymdrin ag offerynnau. Canfuwyd systemau priodol ar gyfer ymdrin ag offer radiograffig yn ddiogel. Canfuwyd gennym fod angen gwneud rhai gwelliannau i nodiadau cleifion, ac rydym wedi argymhell y dylid datblygu system adolygu gan gymheiriaid ar gyfer y deintyddion er mwyn hwyluso rheolaeth ansawdd fewnol a gwelliannau. Canfuwyd gennym fod y trefniadau ar gyfer ymdrin ag achosion brys cleifion yn foddhaol; fodd bynnag, mae angen eu hategu'n ffurfiol gyda pholisi dadebru.

Edrychwyd ar ba mor agos y mae'r practis yn bodloni'r disgwyliadau a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal. Edrychwyd yn benodol ar ansawdd a phriodoldeb y trefniadau ar gyfer:

- Dadheintio offerynnau
- Defnyddio offer radiograffig yn ddiogel
- Cael gwared ar wastraff yn ddiogel
- Safon y cofnodion mewn nodiadau cleifion a'r dystiolaeth o ofal clinigol yr oedd y rhain yn ei darparu
- Ymdrin ag unrhyw achosion brys lle gallai fod angen cymorth cyntaf neu driniaeth feddygol bellach

Dadheintio

Canfuwyd gennym fod trefniadau boddhaol ar waith ar gyfer dadheintio offerynnau, a fyddai'n lleihau risgiau croes-heintio pe baent yn cael eu dilyn yn gywir ac yn gyson. Roedd y practis ar fin newid yn llwyr y ffordd y mae'n ymdrin â dadheintio. Ar adeg ein harolygiad, roedd ystafell ddadheintio bwrpasol wedi'i chreu, ac roedd y gwaith adeiladu bron wedi'i gyflawni, a oedd yn golygu y byddai'r staff yn symud maes o law o ddadheintio offerynnau mewn ystafelloedd triniaeth i gwblhau'r broses gyfan yn yr ystafell hon.

Nodwyd gennym fod yr ystafell ddadheintio newydd wedi'i chynllunio'n dda ac y byddai'n hwyluso llif gwaith budr i lân priodol fel y nodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Cawsom sgwrs â'r staff sy'n cymryd rhan yn y broses ddadheintio, a chanfuwyd eu bod yn hyderus yn y broses a bod ganddynt ddigon o wybodaeth i awgrymu

y gallent ddilyn polisi a gweithdrefn y practis ar gyfer dadheintio a rheoli heintiau.

Nodwyd gennym fod gan y practis arweinydd enwebedig ar gyfer rheoli heintiau a oedd yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'i arfer rheoli heintiau ac yn cymryd camau ar sail unrhyw ganfyddiadau a nodwyd. Cynhaliwyd yr archwiliad diweddaraf ddiwedd 2014, a defnyddiodd y dull arfer gorau a ddatblygwyd gan Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru ac a argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.⁴ Nodwyd gennym hefyd bod y staff wedi cael diweddariadau rheolaidd ar y polisi rheoli heintiau, a chyhoeddir nodiadau atgoffa mewnol gan yr unigolyn sy'n gweithio yn y swyddogaeth hon.

Nid oedd y system gyfredol ar gyfer prosesu offerynnau yn cynnwys nodi dyddiad ar yr offerynnau wedi'u sterileiddio a'u lapio. Rydym yn argymhell y dylid cyflwyno hyn fel na chedwir offerynnau yn hwy nag y dylid cyn ei hail-sterileiddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid sicrhau bod offerynnau wedi'u sterileiddio yn cael eu nodi'n gyson i ddangos y dyddiad prosesu a'r dyddiad terfyn.

Defnydd o offer radiograffig

Yn seiliedig ar y canfyddiadau canlynol, roeddem yn gallu dod i'r casgliad bod trefniadau boddhaol ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig yn ddiogel:

- Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gywir am y defnydd o offer radiograffig ar y safle
- Gwelsom fod lleoliad yr offer a'r switsys gweithredu yn briodol ac yn galluogi defnydd diogel
- Gwelsom fod yr offer pelydr-X yn cael ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd gan beirianwyr wedi'u hyfforddi'n briodol. Nodwyd gennym fod peiriannydd wedi argymhell cymryd camau yn ystod ymweliad

⁴ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

diweddar, ond ni allem ddod o hyd i dystiolaeth i ddangos y cymerwyd y camau hyn

- Pan oedd archwiliadau pelydr-X wedi'u cynnal, nodwyd gennym o'r sampl o gofnodion i ni ei gweld nad oedd y rheswm am eu cynnal wedi cael ei gofnodi ac nad oedd y delweddau wedi cael eu gwerthuso'n gyson
- Gwelsom fod rheolau lleol⁵ ar waith; fodd bynnag, nid oedd y rhain yn nodi'n gywir pwy yw defnyddwyr awdurdodedig yr offer yn y practis

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid sicrhau bod cyfiawnhad a graddau radiograffau yn cael eu cofnodi'n drylwyr yn nodiadau cleifion.

Dylid sicrhau bod rheolau lleol yn nodi'r unigolion cywir sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu'r offer.

Dylid sicrhau bod systemau digon cadarn ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol yn barhaus a bod llofnod i ddangos bod unrhyw gamau dilynol wedi cael eu cyflawni.

Gwelsom dystiolaeth o gontractau ar gyfer cael gwared ar wastraff y practis yn ddiogel, ac fe'n hysbyswyd am sut y mae'n rheoli gwastraff o ddydd i ddydd; roedd yn ymddangos bod y ddau drefniant yn foddhaol.

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant mewn dadebru ac ymdrin ag achosion brys cleifion. Gwelsom dystiolaeth hefyd a oedd yn dangos bod tri aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant dilys mewn cymorth cyntaf yn y gweithle. Mae'r hyfforddiant hwn yn helpu i sicrhau bod staff yn gymwys i reoli sefyllfaoedd brys na ragwelwyd sy'n codi yn y practis. Nodwyd gennym nad oedd unrhyw bolisi sy'n sail i'r camau y dylai staff eu cymryd os bydd achos brys, a hysbyswyd y practis y dylid datblygu hwn ar unwaith. Gellid hefyd defnyddio polisi fel hwn i atgoffa staff a chyfeirio ato'n rheolaidd i sicrhau bod gwybodaeth yn parhau i fod yn gyfredol. Mae gan y staff fynediad at feddyginiaeth frys ac offer dadebru, a oedd yn cael ei storio ar ben

⁵ Cyfres ysgrifenedig o gyfarwyddiadau gweithio allweddol yw rheolau lleol, sy'n orfodol ac y mae'n rhaid eu dilyn er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu hamlygu cyn lleied â phosibl i offer radiograffig.

coridor y ddeintyddfa dros dro, ond a fyddai'n cael ei symud i'r ystafell ddadheintio'n fuan, ar ôl ei chwblhau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid llunio polisi dadebru sy'n nodi'n eglur yr hyn y dylai staff ei wneud os bydd achos brys yn ymwneud â chlaf, a dylid nodi hefyd pa lefel o hyfforddiant y mae'n ofynnol i staff ei derbyn.

Cofnodion cleifion

Edrychwyd ar sampl o nodiadau tri chlaf (a hyd at bum set o nodiadau mewn rhai achosion) ar gyfer pob deintydd sy'n gweithio yn y practis. Mae hyn yn golygu ein bod wedi edrych ar gyfanswm o ugain set o gofnodion. Ar draws y sampl hon, canfuwyd gennym fod safon y cofnodion yn amrywio. Roedd y nodiadau'n gynhwysfawr ac yn drylwyr yn gyffredinol, ond canfuwyd rhai meysydd y mae angen eu gwella. Canfuwyd gennym fod bron i ddim cofnodion lle'r oedd caniatâd y claf wedi'i nodi. Trafodwyd hyn ar y pryd, ac rydym yn argymhell y dylid dechrau gwneud hyn ar unwaith. Nodwyd gennym hefyd nad oedd canllawiau ar gyfer ailalw cleifion yn cael eu dilyn yn gyson.

Nodwyd gennym hefyd bod nifer o enghreifftiau lle byddai dogfennau'n ymwneud â rhoi'r gorau i ysmegu yn elwa o gael eu gwella. Trafodwyd hyn gyda'r deintyddion, a gofynnwyd iddynt ymchwilio i'r mater a datblygu dull cyffredinol fel tîm o gofnodi hanes cymdeithasol mewn nodiadau cleifion. Roedd yn ymddangos bod y deintyddion yn defnyddio dulliau amrywiol o ddiweddarau hanesion meddygol cleifion; weithiau, gwelsom gopiâu papur ac weithiau roedd diweddariadau electronig, ond, mewn rhai achosion, ni allem ddod o hyd i dystiolaeth bod hyn wedi cael ei wneud o gwbl. Gallai safoni'r dull hwn fod yn ddefnyddiol fel y gellir olrhain diweddariadau'n haws.

Yr hyn sydd angen ei wella

O ran nodiadau cleifion, dylid:

- ***sicrhau y cofnodir caniatâd cleifion***
- ***ystyried y dull o gofnodi hanes cymdeithasol a'r cyngor a roddir ar sail hynny***
- ***safoni'r dull o gofnodi hanesion meddygol cleifion fel bod y rhain yn cael eu cwblhau'n gyson ac yn hawdd cael gafael arnynt***
- ***sicrhau bod canllawiau ailalw'n cael eu dilyn yn gyson***

Canfuwyd gennym nad oedd unrhyw drefniadau ffurfiol ar gyfer adolygu gan gymheiriaid ar waith ymhlith y deintyddion. Nodwyd gennym hefyd nad oedd

unrhyw archwiliadau cadw cofnodion ar waith a fyddai'n ddull mewnol ar gyfer gwella ansawdd. Gyda'r ddau ganfyddiad hyn mewn golwg, ynghyd ag amrywioldeb y cofnodion, dylai'r practis ddatblygu system ffurfiol ar gyfer adolygu gan gymheiriaid ymhlith y deintyddion a'r staff clinigol eraill.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid sefydlu system adolygu gan gymheiriaid ymhlith y deintyddion a'r staff clinigol eraill.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod diffyg rheolaeth practis, a oedd wedi arwain at ffeiliau staff wedi'u cynnal yn wael, gwybodaeth reoli ar goll, a diffyg cyfathrebiad i ddiweddarau staff am bolisiau a newidiadau a datblygiadau yn y gwasanaeth. Hwn oedd y maes yr oedd gennym y mwyaf o bryderon yn ei gylch, ac y mae angen ei wella'n fwyaf sylweddol. Cyflwynwyd gofyniad sicrwydd ar unwaith gennym y dylai'r practis enwebu rheolwr practis dros dro/dirprwy reolwr practis gan fod y rheolwr practis parhaol ar absenoldeb salwch. Cafodd hyn ei ddatrys yn ystod yr wythnos yn dilyn ein hymweliad arolygu.

Nid oedd y rheolwr practis nad unrhyw aelodau eraill o dîm rheoli Canolfan Ddeintyddol y Gelli Gandryll yn bresennol yn ystod ein harolygiad. Er bod y staff a oedd yn gweithio yn y practis yn gynorthwyol ac yn wybodus o fewn ffiniau eu swyddogaethau, nid oedd hyn yn ymestyn i bob agwedd ar y practis. O ganlyniad i hyn, roedd diffyg gwybodaeth ar gael i ni ar adegau. Roedd y practis yn brysur ar ddiwrnod ein harolygiad, ac, er bod rhai aelodau staff uwch yn gweithio, roeddent yn brysur gyda dyletswyddau clinigol ac yn gofalu am gleifion. Roedd y rheolwr practis ar gyfnod o absenoldeb salwch, ac ni threfnwyd unrhyw gymorth rheoli wrth gefn yn ystod ei habsenoldeb er mwyn cynorthwyo'r staff o ddydd i ddydd. Roedd unrhyw benderfyniadau yr oedd angen eu gwneud yn cael eu gwneud gan berchennog y practis, sydd wedi'i leoli mewn practis arall gryn bellter o'r Gelli Gandryll. Roeddem yn pryderu bod disgwyl i'r staff clinigol gyflawni'r swyddogaeth reoli dros dro, yn ogystal â'u dyletswyddau gyda chleifion. O ganlyniad i hyn, gwnaethpwyd gofyniad sicrwydd ar unwaith gennym y dylid trefnu cymorth rheoli dros dro ar unwaith, ac y dylai pwy bynnag fyddai'n cael ei enwebu i wneud hyn gael ei ryddhau'n ddigonol o ddyletswyddau clinigol fel y gallai neilltuo amser i ddyletswyddau rheoli. Yn dilyn yr arolygiad, roeddem yn fodlon gyda'r ymateb i ni ei gael gan y practis, ac mae'r uwch-nyrs ddeintyddol yn gweithio fel rheolwr practis am gyfnod dros dro erbyn hyn.

Nid oedd gan unrhyw un o'r deintyddion dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf ar adeg ein harolygiad (yn unol â gofynion y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat). Trafodwyd hyn gyda'r practis, a gytunodd i sicrhau bod yr holl staff deintyddol yn diweddarau eu harchwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol. Nid yw'n orfodol i staff y practis gael archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; fodd bynnag, ceir gofyniad bod y deintydd sy'n cyflogi yn cynnal archwiliadau i sicrhau addasrwydd staff ar gyfer cyflogaeth. Trafodwyd hyn gyda'r practis, a chanfuwyd gennym y byddai hyn hefyd yn elwa o gael ei adolygu, gan gynnal

archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel sy'n ofynnol, oherwydd bod llawer o'r rhain yn hen hefyd a/neu nid oeddent wedi cael eu cwblhau gan y practis ei hun yn wreiddiol.

Canfuwyd gennym hefyd nad oedd y practis yn gwbl ymwybodol o'r gofynion yn ymwneud â chwblhau archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac rydym wedi cynghori eu bod yn datblygu polisi practis sy'n cynnwys y weithdrefn gywir i'w dilyn, gan adolygu a chymryd rheoliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd – a chyfraith gyflogaeth – i ystyriaeth. Cytunasant i wneud hyn.

Roedd y ffeiliau staff i ni eu gweld yn anhrefnus, ac roedd rhywfaint o wybodaeth ar goll; nid oedd unrhyw bolisi recriwtio ar waith i sicrhau y dilynir pob archwiliad cychwynnol o addasrwydd cyn cynnig swydd. O ystyried hyn â'n canfyddiad uchod yn ymwneud â diffyg archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, dylid cynnal adolygiad o weithdrefnau recriwtio a dylid datblygu polisi recriwtio a chyflogaeth. Dylai hwn gymryd archwiliadau addasrwydd cychwynnol a pharhaus i ystyriaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid datblygu polisi recriwtio a chyflogaeth i sicrhau y cynhelir pob archwiliad addasrwydd cyn-cyflogi ac y bodlonir gofynion addasrwydd parhaus.

Canfuwyd gennym fod nifer gyfyngedig o gofnodion cyfarfodydd staff ar gael i ni eu gweld, ac fe'n hysbyswyd bod cyfarfodydd yn achlysurol ac yn anaml. Er bod y cofnodion yn fanwl ac yn llawn gwybodaeth, roeddem yn pryderu ynghylch priodoldeb rhywfaint o'r iaith a'r cyfarwyddyd a roddwyd i staff yn y cyfarfodydd hyn. Mae amrywiaeth o gyfrifoldebau'n gysylltiedig â swyddogaeth y rheolwr practis, a dylai'r practis sicrhau bod y sawl sy'n cyflawni'r swyddogaeth hon yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth, a'r hyfforddiant cywir i'w helpu i gyflawni'r swydd yn effeithiol ac yn effeithlon. Ni allem fod yn sicr bod hyn yn wir gan na welsom dystiolaeth bod hyfforddiant rheoli wedi cael ei gynnig na'i dderbyn, ac ni welsom chwaith dystiolaeth o drefn ar gyfer cefnogi'r rheolwr practis yn rheolaidd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid cynnal cyfarfodydd tîm yn rheolaidd a'u hategu gydag agenda wedi'i gynllunio sydd â'r nod o wella cyfathrebu â staff y practis ar faterion allweddol ac sydd hefyd yn hybu eu datblygiad.

Mae'n rhaid cefnogi'r unigolyn sy'n cyflawni swyddogaeth y rheolwr practis trwy ddulliau priodol, a dylai dderbyn yr hyfforddiant gofynnol i'w alluogi i gyflawni'r swydd yn effeithiol.

Nodwyd gennym nad oedd arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd; a dweud y gwir, ni allem ddod o hyd i unrhyw gofnodion diweddar, sy'n awgrymu efallai nad ydynt wedi cael eu cynnal yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid sefydlu system i sicrhau y cynhelir arfarniadau blynyddol o'r staff.

Edrychwyd ar sut y mae'r practis yn ymdrin â phryderon a chwynion. Canfuwyd gennym fod y trefniadau'n anfoddhaol; roedd angen adolygu a diweddarau'r polisi cwyno, ond, yn bwysicach, roedd y ffordd yr oedd cwynion yn cael eu cofnodi'n annigonol, ac roedd angen ei hadolygu ar frys. Roeddem yn pryderu ar ôl adolygu sampl o gwynion i ddarganfod bod gwybodaeth ar goll neu nad oedd y practis wedi dilyn ei weithdrefn ei hun ar gyfer ymdrin â nhw. Nodwyd gennym hefyd bod achosion lle dylid bod wedi cymryd camau pellach, fel camau disgyblu, neu ddarparu rhagor o hyfforddiant i staff, ond nid oedd hynny wedi digwydd. Roedd yn ymddangos hefyd, ac roedd hyn yn siomedig, nad oedd staff eraill y practis wedi cael eu hysbysu am y cwynion, ac felly wedi colli cyfleoedd posibl ar gyfer dysgu a myfyrio a allai helpu i atal cwynion eraill rhag codi. Cyflwynwyd llythyr sicrwydd ar unwaith gennym yn gofyn i'r ffordd o ymdrin â chwynion gael ei hadolygu ac i weithdrefn newydd gael ei chyflwyno ar unwaith. Roeddem yn fodlon â'r ymateb i hyn yn dilyn yr arolygiad, ond hoffem weld tystiolaeth o'r trefniadau newydd nawr.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid anfon copi o'r polisi a'r weithdrefn gwyno newydd at AGIC er mwyn iddo gael ei adolygu.

Roedd rhywfaint o salwch ymhlith nyrsys deintyddol a oedd yn gweithio yn y practis yn ystod ein harolygiad hefyd, a defnyddiwyd nyrsys asiantaeth o ganlyniad. Fe'n hysbyswyd mai hwn oedd y tro cyntaf y bu'n rhaid gwneud hyn. Er ein bod yn cydnabod bod angen gwneud hyn i ddiwallu angen brys, roedd yn peri pryder i ni ddarganfod nad oedd unrhyw bolisi ar waith y gallai staff y practis a oedd yn rheoli'r sefyllfa hon ei ddilyn fel y gallent sicrhau eu hunain o addasrwydd yr unigolyn a darparu hyfforddiant sefydlu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid datblygu polisi a gweithdrefn ar gyfer cyflogi staff asiantaeth â chymwysterau priodol yn ddiogel, gan gymryd yr angen am gyfnod sefydlu i ystyriaeth hefyd.

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis i fonitro cydymffurfiad â rheoliadau a safonau perthnasol. Er nad oes unrhyw argymhelliad penodol wedi'i wneud yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg yn hyn o beth ar adeg yr arolygiad nesaf.

Ansawdd yr Amgylchedd

Mae'r practis wedi'i leoli mewn adeilad a adeiladwyd yn bwrpasol, a cheir mynediad gwastad drwyddi draw ynghyd â ramp i gael mynediad pe bai ei angen. Roedd rhywfaint o waith adeiladu ar y gweill yn ystod ein harolygiad. Roedd pob rhan o'r practis yn ymddangos yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw i safon briodol.

Mae'r practis wedi'i leoli ar gyrion y Gelli Gandryll o fewn pellter cerdded i ganol y dref. Mae nifer gyfyngedig o leoedd parcio ar gael i gleifion y tu allan i'r practis, neu, fel arall, ceir maes parcio talu ac arddangos cyhoeddus gerllaw.

Mae'r holl bractis ar un lefel gydag un gris i fynd i mewn iddo, ond ceir mynediad ramp i'r drws ochr, gan ganiatáu mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn. Mae un toiled wedi'i neilltuo at ddefnydd cleifion yn y practis; fodd bynnag, mae hwn yn fach ac ni fyddai'n addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

Mae'r ystafell aros yn fawr gyda digonedd o seddi ac amrywiaeth o daflenni gwybodaeth, sgrin wybodaeth newydd, a theganau i blant sy'n aros i gael eu gweld. Nodwyd gennym hefyd y darperir oerydd dŵr a chwpanau tafladwy i'r cleifion eu defnyddio.

Roedd yn ymddangos bod yr holl fannau ar gyfer cleifion a'r ystafelloedd triniaeth yn lân ac yn daclus.

Roedd rhywfaint o waith adeiladu ar y gweill yn ystod ein hymweliad i wella'r ystafell ddadheintio, a nodwyd gennym fod cynllun newydd yr ystafell hon yn dda, gan hwyluso llif budr i lân priodol.

Ceir derbynfa fawr i dderbyn cleifion a swyddfa y tu ôl i'r dderbynfa ar gyfer storio ffeiliau a gwaith papur arall. Nid oes unrhyw swyddfa breifat i staff weithio ynddi ac efallai fod hyn yn rhywbeth y gellid ei ystyried yn ddiweddarach pan fydd angen gwneud gwelliannau i'r safle, fel y gellir cynnal cyfarfodydd rhwng staff ar gyfer arfarniadau, ymhlith pethau eraill, heb ymyrraeth.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran yr hyn sydd angen ei wella. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng Nghanolfan Ddeintyddol y Gelli Gandryll yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Canolfan Ddeintyddol y Gelli Gandryll

Dyddiad yr Arolygiad: 18 Mehefin 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Profiad y Claf				
7	Mae'n rhaid datblygu ffordd reolaidd o wahodd adborth cleifion. Mae'n rhaid dadansoddi ac adolygu canlyniadau'r rhain, gan gymryd camau ar eu sail ac fel sy'n briodol.	Rydym wedi archebu rhai ffurflenni adborth gan Admor, a phan gyrhaeddwn nhw, byddwn yn eu defnyddio fel templed ac yna'n eu hargraffu ein hunain. Byddwn nhw ar gael yn gyfleus, bob amser, yn yr ystafell aros. Byddwn yn dadansoddi'r wybodaeth bob chwe mis ac yn ei chynnwys yn ein cyfarfodydd tîm.	Rheolwr	Ar unwaith
Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal				
9	Dylid sicrhau bod offerynnau wedi'u sterileiddio yn cael eu nodi'n gyson i ddangos	Caiff offer eu stampio'n rheolaidd â'r dyddiad prosesu a'r dyddiad dod i ben. Mae gennym stamp dyddiad sydd wedi'u nodi â dyddiad	Rheolwr/uwch-nyrs ddeintyddol	Ar unwaith

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	y dyddiad prosesu a'r dyddiad terfyn.	heddiw, stamp 28 diwrnod, a stamp blwyddyn o hyd ar gyfer offer a lanhawyd gan sugnydd.		
10	Dylid sicrhau bod cyfiawnhad a graddau radiograffau yn cael eu cofnodi'n drylwyr yn nodiadau cleifion.	Caiff hyn ei drafod yn y cyfarfod tîm nesaf, a byddwn yn edrych ar newid y templed ar gyfer ysgrifennu nodiadau fel bod yr holl glinigwyr yn defnyddio'r un templed.	Cyfarwyddwr clinigol/rheolwr	Yn parhau
10	Dylid sicrhau bod rheolau lleol yn nodi'r unigolion cywir sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu'r offer.	Mae hyn fel arfer ar y wal ger y sganiwr Durr Vista, ond cafodd ei dynnu ymaith yn ddiweddar ac felly hefyd y poster. Fodd bynnag, byddaf yn ei ymgorffori yn y rheolau; rwy wrthi'n diweddarau'r ffeil radiograffeg ar hyn o bryd.	Rheolwr/uwch-nyrs	Ychydig wythnosau
11	Dylid llunio polisi dadebru sy'n nodi'n eglur yr hyn y dylai staff ei wneud os bydd achos brys yn ymwneud â chlaf, a dylid nodi hefyd pa lefel o hyfforddiant y mae'n ofynnol i staff ei derbyn.	Rwy wedi ysgrifennu polisi dadebru, gan gyfeirio at leoliad y cyfarpar a chyfrifoldebau'r tîm, yn ogystal â'r ffaith bod rota ar gyfer gwirio'r cyfarpar.	Rheolwr/uwch-nyrs	Ar unwaith
11	O ran nodiadau cleifion, dylid:	Byddwn yn edrych ar hyn yn y cyfarfod staff nesaf.	Cyfarwyddwr clinigol/rheolwr	Ychydig wythnosau

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>sicrhau y cofnodir caniatâd cleifion</p> <p>ystyried y dull o gofnodi hanes cymdeithasol a'r cyngor a roddir ar sail hynny</p> <p>safoni'r dull o gofnodi hanesion meddygol cleifion fel bod y rhain yn cael eu cwblhau'n gyson ac yn hawdd cael gafael arnynt</p> <p>sicrhau bod canllawiau ail-alw'n cael eu dilyn yn gyson</p>	<p>Rydym yn mynd i edrych ar ba ffurflen hanes meddygol i'w defnyddio, ond rydym yn debygol o ddilyn y ffurflen oddi ar R4, a'i diweddarau ar y cyfrifiadur a'i hargraffu er mwyn i gleifion ei llofnodi.</p> <p>Ymdrinnir â hyn yn y cyfarfod tîm nesaf. Rydym yn disgwyl i Ddeoniaeth Cymru ddod i mewn, a byddwn yn dechrau ar Ddeintyddiaeth Matrics Aeddfedrwydd.</p>	Cyfarwyddwr clinigol/rheolwr	Ychydig wythnosau
12	Dylid sefydlu system adolygu gan gymheiriaid ymhlith y deintyddion a'r staff clinigol eraill.	Caiff hyn ei ymgorffori ynghyd ag arfarniadau staff, a byddwn yn defnyddio system bwyntiau 360, fel y cynigiwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.	Cyfarwyddwr clinigol/rheolwr	Y misoedd nesaf
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
14	Dylid datblygu polisi recriwtio a chyflogaeth i sicrhau y cynhelir pob archwiliad addasrwydd	Bydd yr holl bolisiau recriwtio a chyflogaeth yn cael eu defnyddio ar sail ein Pecyn Rheoli Cyflogeion, fel y'i cynigiwyd gan Wasanaethau	Perchennog/rheolwr	

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	cyn-cyflogi ac y bodlonir gofynion addasrwydd parhaus.	Busnes Peninsula, a byddwn yn edrych i ddefnyddio corff ymbarél ar gyfer ein gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, am fod gennym lai na 100 y flwyddyn ac felly ni allwn gofrestru â nhw'n uniongyrchol.		
14	Mae'n rhaid cynnal cyfarfodydd tîm yn rheolaidd a'u hategu gydag agenda wedi'i gynllunio sydd â'r nod o wella cyfathrebu â staff y practis ar faterion allweddol ac sydd hefyd yn hybu eu datblygiad.	Bydd cyfarfodydd tîm yn digwydd yn rheolaidd ac ar ddiwrnodau gwahanol o'r wythnos i sicrhau bod yr holl staff yn cael y cyfle i fynychu. Rydym eisoes wedi dechrau cynnal cyfarfodydd tîm ers yr arolygiad.	Rheolwr	Ar unwaith
14	Mae'n rhaid cefnogi'r unigolyn sy'n cyflawni swyddogaeth y rheolwr practis trwy ddulliau priodol, a dylai dderbyn yr hyfforddiant gofynnol i'w alluogi i gyflawni'r swydd yn effeithiol.	Bydd y rheolwr ardal yn ymweld yn chwarterol, ac rydym mewn cyswllt rheolaidd dros y ffôn a thrwy e-bost. Bydd Mitesh a minnau hefyd yn cwrdd yn chwarterol, ac rydym mewn cyswllt ffôn ac e-bost yn wythnosol. Bydd y cyfarwyddwr clinigol a minnau'n cynnal cyfarfodydd wythnosol i drafod unrhyw faterion clinigol sydd wedi codi. Mae holl reolwyr eraill y cwmni yn fy nghynorthwyo drwy e-bost a thros y ffôn ac yn fy helpu i ddiweddarau polisïau.		Dechrau ar 14 Hydref

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
15	Mae'n rhaid sefydlu system i sicrhau y cynhelir arfarniadau blynyddol o'r staff.	Byddwn yn defnyddio system bwyntiau 360, fel y'i cynigiwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.	Rheolwr/cyfarwyddwr clinigol	O fis Awst 2015
15	Dylid anfon copi o'r polisi a'r weithdrefn gwyno newydd at AGIC er mwyn iddo gael ei adolygu.	Anfonwyd y copi. Archebwyd pecyn cwynion gan Admor. Gosodir poster yn yr ystafell aros, a bydd ffurflenni er mwyn i'r cleifion gael mynegi cwynion yn cael eu harddangos.		Ar unwaith
15	Dylid datblygu polisi a gweithdrefn ar gyfer cyflogi staff asiantaeth â chymwysterau priodol yn ddiogel, gan gymryd yr angen am gyfnod sefydlu i ystyriaeth hefyd.	Rwy'n gweithio ar y polisi ar hyn o bryd, ond rhoddir cyfnod sefydlu i bob un o gwmpas yr adeilad, i ddangos yr allanfeydd tân, y llyfr damweiniau, a'r cyfarpar dadebru, ac iddynt ymgynefino â lleoliadau'r cyflenwadau ac ag amgylchedd y ddeintyddfa.	Rheolwr	Ar unwaith
Ansawdd yr Amgylchedd				
	Dim			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): Zoe-marie Luxton

Teitl: Rheolwr/uwch-nyrs ddeintyddol

Dyddiad: 24/7/15.....